

Rhif cwestiwn	YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU - PAPUR GWYN AMAETHYDDIAETH YNG NGHYMRU - BETH MAE'N EI GYNNWYS	Atebion
1	A all pobl ddewis pwy fyddan nhw'n ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaeth cynghori' neu a fydd rhaid iddyn nhw ddewis oddi ar restr gymeradwy? Ble mae Llywodraeth Cymru'n mynd i ddod o hyd i'r holl ymgynghorwyr priodol?	Nid ydym wedi penderfynu hynny eto. Rwy'n credu mai'r hyn sydd dan sylw yma yw gwasanaeth cynghori yn y cyd-destun mwyaf holistaidd. Rydym ni'n cydnabod y gallai rhai ffermwyr fod angen cyngor ynglŷn â gwahanol bethau, a gallai hynny fod gan bractis y fferm, ond gallai hefyd gynnwys cyngor busnes er enghraifft, ac mae gennym ni amrywiaeth o wahanol fecanweithiau cefnogaeth a allai ddarparu cyngor o'r fath nawr, ac yn y dyfodol hefyd. Nid oes gennym fanylion o sut y bydd cyngor yn cael ei gyrchu, na'r union fath o gyngor, ond rwy'n credu mai'r ymrwymiad gan y Llywodraeth yw sicrhau nad yw ffermwyr yn cael eu gofyn i wneud y trawsnewidiad i'r cynigion newydd ar eu pen eu hunain. Rydym ni eisiau sicrhau bod cefnogaeth ategol ar gael ar bob cam o'r daith.
2	O ran arweiniad a chyngor, a fydd gennym ni'r rhyddid i ddewis ein cynghorwyr ein hunain (nid o gronfa gyfyngedig yn unig), ac a fydd ffermwyr yn cael cyfrifoldeb dros greu eu cynllun bioamrywiaeth eu hunain ar gyfer y fferm?	Gweler cwestiwn 1
3	Mae'r cynllun hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob ffermwr gael asesiad cychwynnol ac yna ymgynghorydd i ddarparu Cynllun Cynaliadwyedd Fferm ar gyfer y fferm. A oes digon o ymgynghorwyr i wneud hyn?	Gweler cwestiwn 1

4	<p>Bydd y dull sy'n cael ei arwain gan gynghorydd ar gyfer pob Cynllun Cynaliadwyedd Fferm unigol yn gostus iawn ac yn dasg anferthol. A yw hyn yn ffordd ddoeth o wario arian cyhoeddus? Sut allwch chi sicrhau cysondeb o ran dehongliad cynghorwyr o ganllawiau'r cynllun?</p>	Gweler cwestiwn 1
5	<p>Mae'n ymddangos bod y cynllun yn dibynnu ar bobl i gynnal adolygiadau ac asesiadau ar y fferm, sy'n debygol o fod yn ddrud. Hefyd, a ydych chi'n meddwl bod yr adnoddau dynol ar gael i gyflawni'r gwaith?</p>	<p>Dyna un o'r heriau a'r rhesymau dros gael cyfnod pontio estynedig, ac rwy'n credu ein bod yn cydnabod y bydd gwahanol fathau o ffermydd/busnesau fferm angen gwahanol fathau o gyngor. Efallai y bydd rhai angen ychydig iawn o gyngor, ac eraill angen ychydig mwy er mwyn eu galluogi i symud ymlaen i'r cynllun newydd. Rydym ni eisiau gwneud y broses o ddarparu'r cyngor mor hyblyg a hygyrch â phosibl, ond rydym ni'n cydnabod hefyd y bydd angen talu amdano, ac mae'n wasanaeth cynghori sy'n cael ei gefnogi gan y Llywodraeth, felly mae'n rhaid i ni ddangos ei fod yn darparu gwerth am arian drwy gydol y cyfnod pontio. Rydym ni'n bendant yn clywed y pryderon ynglŷn â lluo o ymgynghorwyr yn teithio o amgylch Cymru'n darparu cyngor, ac nad yw'r arian wedyn yn mynd i'r bobl sy'n gwneud yr hyn yr ydym ni eisiau iddyn nhw ei wneud. Rydym ni'n ymwybodol iawn o hynny, ac y bydd llunio cynnig ar gyfer darparu cyngor sy'n adlewyrchu bod pob fferm ychydig yn wahanol yn gofyn am bethau gwahanol, ond bydd gwerth am arian yn ystyriaeth allweddol o'n cynnig ar gyfer y gwasanaeth cynghori.</p>

6	<p>Os mai Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu pa ddeilliannau a ddisgwylir ar bob fferm, pwy fydd yn gwneud yr Adolygiad Fferm ac yn penderfynu ar y deilliannau gofynnol?</p> <p>Bydd angen i ddeilliannau fod yn fanwl iawn, er mwyn gallu pennu a yw'r ffermwr wedi cyflawni'r deilliannau hyn ai peidio.</p>	Gweler cwestiwn 5
7	<p>A yw'r ffermwr yn cael blaenoriaeth yn y broses hon, gyda chyfathrebu wedi'i dargedu at ffermwyr, systemau hawdd i'w defnyddio, a gwerthoedd y ffermwyr yn cael eu rhoi ar frig yr agenda? A fydd sefydliadau eraill yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod hyn yn cael ei redeg yn llyfn?</p>	Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr i sicrhau bod y broses mor syml â phosibl a byddwn yn cynnal camau pellach o gyd-dylunio i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
8	<p>Beth fydd y gyllideb flynyddol a fydd ar gael ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy?</p>	Nid ydym mewn sefyllfa i gadarnhau cyllidebau ar hyn o bryd.
9	<p>Fe wnaethoch chi ddweud nad oedd Cymru wedi derbyn digon o gyllid gan Lywodraeth Prydain, ac roedd eich sleid yn nodi y byddwn yn derbyn taliad yn 2022 os bydd cyllid yn caniatáu, ond os nad ydym ni wedi derbyn digon o gyllid, sut allwch chi sicrhau y byddwn yn gallu cael yr un faint yn 2022?</p>	Ni allwn sicrhau unrhyw beth nes bod Llywodraeth y DU yn cadarnhau'r gyllideb. Rydym wedi nodi ein bwriad i dalu Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) 2022 yn amodol ar sicrhau bod y gyllideb ar gael.
10	<p>A fydd polisi'r dyfodol yn cynnwys cysylltiad diodyn er mwyn i gynnyrch bwyd amaeth Cymru gael ei gysylltu'n uniongyrchol gyda threfniadau pwrcasu Cyrrff Cyhoeddus h.y. ysgolion, Awdurdodau Lleol, y Senedd a byrddau iechyd?</p>	Rydym ni'n dal i ddatblygu ein polisi yn y maes hwn, ond byddwn yn ystyried sut y gallwn fyrhau cadwyni cyflenwi.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

11	Sut fydd y gefnogaeth gyda'r gadwyn gyflenwi'n helpu rheolwyr tir i reoli ceirw ar raddfa'r dirwedd?	Nid yw rheoli ceirw ar raddfa'r dirwedd o fewn cwmpas y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chefnogaeth ar gyfer y Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi.
12	O ystyried y pwyslais ar fuddion amgylcheddol, a fyddwch chi'n cefnogi gwaith marchnata i wneud hyn yn hyfyw yn y farchnad?	Byddwn - bydd y gwaith yn ymwneud â gwerthoedd brand cynaliadwy'n rhan bwysig o'r cynllun.
13	A fydd Llywodraeth Cymru'n edrych ar weithio gyda'r sector preifat a allai fod â diddordeb mewn prynu'r carbon y mae ffermwyr yn gallu ei ddal a'i storio fel rhan o'r cynllun?	Mae gennym ddiddordeb gweld sut y gallwn dynnu cyllid sector preifat i mewn i'r cynllun a byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n bosibl.
14	Beth fyddwch chi'n ei wneud i leihau gwastraff bwyd?	Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth (y tu hwnt i ailgylchu) sy'n ymrwmo i ddileu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi. Byddwn yn gwneud hyn trwy weithio gyda busnesau ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, o'r fferm i'r fforc, i leihau gwastraff, cynyddu effeithlonrwydd adnoddau i'r eithaf a gweithio i gyfyngu ar wastraff bwyd ym mhob lleoliad.
15	Beth am gefnogaeth i ladd-dai lleol i fyrhau cadwyni cyflenwi, lleihau milltiroedd cig a gwella lles anifeiliaid?	Mae manylion y cynllun yn dal i gael eu datblygu a byddwn yn ceisio barn ffermwyr pan fydd gennym ddrafft cychwynnol o'r dull gweithredu.
16	Ar hyn o bryd rydym yn cael grantiau ar gyfer prynu offer penodol neu wella isadeiledd ffermydd, a yw'r mathau hyn o bethau'n mynd i barhau?	Gweler cwestiwn 15
17	A oes unrhyw gynlluniau ar gyfer cynllun grant cyfalaf/buddsoddi? Roedd y cynigion cyntaf yn cynnwys dau gynllun - un ar gyfer canlyniadau amgylcheddol a'r llall ar gyfer grantiau cyfalaf.	Gweler cwestiwn 15

	Ond nawr, gan eu bod wedi cael eu cyfuno, a yw'r agwedd cyfalaf wedi diflannu?	
18	A fydd adolygiad o daliadau gwaith cyfalaf e.e. ar gyfer ffensio lle nad yw'r taliadau'n talu cost deunyddiau ar hyn o bryd?	Gweler cwestiwn 15
19	Cwestiwn mewn perthynas â phobl nad ydynt yn dirfeddianwyr. A oes ystyriaethau ar gyfer ffermwyr heb dir a ffermwyr tenant? E.e. gall taliadau Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) presennol fynd i berchennog y tir; mae rhai tenantiaethau'n gwahardd plannu coed neu weithgareddau eraill a allai fod yn ddymunol. A fydd cynghorwyr a chyfryngwyr ar gael?	Mae'r Gweinidog yn wirioneddol glir, os nad yw'r cynllun newydd yn gweithio i denantiaid, yna nid yw'n gweithio. Mae yna gynigion yn y Papur Gwyn ynghylch tenantiaeth, felly unwaith eto, os oes gennych ddi-ddordeb yn y rheini, anfonwch eich barn a'ch syniadau atom ni. Ond mae angen i ni wneud i'r cynllun weithio i denantiaid, ac mae popeth yr ydym wedi'i drafod o fewn y cynllun newydd ar gyfer gwobrwyo'r ffermwr gweithredol, neu'r ffermwr sy'n cyflawni camau gweithredu ar eu tir. Dyna yw ein bwriad yma, a phan mai ffermwr tenant yw hwn, yn amlwg, rydym ni eisiau sicrhau eu bod yn cael eu gwobrwyo, felly mae angen i ni sicrhau ei fod yn gweithio ar gyfer ffermwyr tenant.
20	Os ydych chi'n rhentu tir sy'n ymwneud â thaliadau Glastir ar hyn o bryd, fel y ffermwr gweithredol ar y tir hwn, a fydden i'n cael cyfle i reoli a gwella'r pridd gan ddefnyddio mewnbynnau? Hefyd, o ran rhentu tir gyda thrwyddedau pori, ai'r ffermwr neu'r perchennog tir fydd yn elwa o'r taliad?	Gweler cwestiwn 19
21	A fydd ffermwyr tenant yn gallu cael mynediad at y cynllun newydd?	Gweler cwestiwn 19



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

22	A fyddai'r polisi newydd yn gyfyngedig i'r ffermwr gweithredol ac felly'n peidio â gadael i berchnogion tir rentu eu tir i hawlio'r buddion ariannol sydd ar gael?	Gweler cwestiwn 19
23	A fydd ffermwyr tenant yn gallu cael mynediad at y cynllun newydd hwn, ac a ydych chi'n rhagweld problemau gyda chytundebau tenantiaeth perchnogion tir?	Gweler cwestiwn 19
24	Ai'r ffermwr neu'r tîrfeddiannwr fydd yn elwa e.e. mewn achosion lle mai'r tîrfeddiannwr sy'n hawlio'r taliadau BPS ar hyn o bryd ac ati?	Gweler cwestiwn 19
25	Cwestiwn mewn perthynas â symleiddio prosesau? A oes unrhyw fwriad i symleiddio'r system i newydd-ddyfodiaid gofrestru? Mae fy musnes yn 6 mis oed, roedd y broses wreiddiol yn hunllef llawn dryswch, ac rydw i wedi arfer delio gyda haenau gweinyddol. A allai hefyd gynnwys modelau busnes newydd e.e. cyfranddaliadau?	Mae angen i ni achub ar y cyfle o adael yr UE er mwyn gwneud ein cynigion mor syml ac ymarferol â phosibl o safbwynt gweinyddol.
26	A fydd y cynllun yn orfodol neu'n wirfoddol i bob fferm yng Nghymru?	Mae'r cynllun yn wirfoddol.
27	Sut fydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau mai'r sawl sy'n ffermio'r tir sy'n cael ei wobrwyo o hyn ymlaen, nid y perchennog tir yn unig?	Mae'r cynllun arfaethedig yn wahanol i'r Cynllun Taliad Sylfaenol presennol. Y newid sylfaenol yw y bydd lefel y taliad yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a gyflawnir gan ffermwr.
28	A fydd y cynllun newydd yn canolbwyntio ar fod yn berchen ar hawliau ffermio? Os felly, sut mae hyn yn cefnogi'r holl ffermwyr?	Gweler cwestiwn 27



Cranfa Amaethyddol Ewrop ar
y Ffer Fffermio Cymru
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

29	A fydd angen hawliau yn y dyfodol i gael mynediad at gymorth ar gyfer rheoli tir?	Gweler cwestiwn 27
30	O ran y cynllun newydd beth yw'r diffiniad o'r gair FFERMWR?	Rydym ni wedi bod yn glir y bydd taliadau fel rhan o'r cynllun newydd yn mynd i'r rhai sy'n cyflawni'r camau gweithredu a fydd yn sicrhau'r canlyniadau rydym ni'n chwilio amdanynt. Ni fydd taliadau'n cael eu gwneud am fod yn berchen ar dir yn unig.
31	A oes angen i chi fod yn ffermwr gweithredol pan fydd y cynllun hwn yn cael ei roi ar waith i dderbyn taliadau?	Rydym ni wedi ymrwmo i sicrhau y dylai cefnogaeth ar gyfer ffermydd yn y dyfodol wobrwyo ffermwyr gweithredol sy'n cyflawni camau gweithredu i sicrhau canlyniadau o ran cynhyrchu bwyd cynaliadwy a chanlyniadau amgylcheddol.
32	A yw ymuno â'r cynllun yn orfodol?	Mae'r cynllun yn wirfoddol.
33	Fel rhan o'r gwaith cyd-ddylunio a gwblhawyd gan gysylltu â 2,000 o ffermwyr, a oedd gennych fesur o'u busnesau h.y. Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) i ddeall lle'r oedd y ffermydd hynny'n eistedd o ran perfformiad busnes?	Na. Roedd y gwaith cyd-ddylunio yn gofyn am rywfaint o wybodaeth ynglŷn â'r math o fferm, ond nid data DPA. Rydym ni'n ceisio gofyn am gyn lleied o ddata â phosibl.
34	Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn plannu'r goeden iawn yn y lle iawn? Mae angen i ni osgoi camgymeriadau yn y gorffennol lle plannwyd pyrwydd Sitca ar ardaloedd helaeth, a hynny'n aml ar draul bioamrywiaeth.	Mae platform modelu ERAMMP (Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig) yn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau ar addaswydd coed megis ansawdd y pridd, glawiad, llethr a newid yn yr hinsawdd. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio ein polisi.
35	Byddwn yn cefnogi dull gweithredu a wnaed yng Nghymru, ond pa mor dryloyw fydd y cyd-ddylunio fel y bydd yn rhoi hyder i ni?	Byddwn yn cyhoeddi casgliadau'r cam cyntaf yn y broses gyd-ddylunio ac rydym ni'n cynllunio camau dilynol wrth i'n syniadau ddatblygu.

36	Sut ydych chi'n disgwyl i'r incwm o gymorthdaliadau newid yn seiliedig ar fferm gyfartalog yng Nghymru ar sail canran?	Mae'n rhy gynnar i ddweud, ond rydym yn cynnal ystod o ddadansoddiadau economaidd i sicrhau ein bod yn deall effaith ein cynigion.
37	Mae'n amlwg y bydd lefelau talu yn seiliedig ar ddarparu nwyddau cyhoeddus, bydd un fferm yn lleihau cynhyrchiant i ddenu taliadau tra bo fferm arall yn derbyn taliad is ond yn cynnal y lefelau cynhyrchu bwyd presennol. Pa effaith fydd y senario hwn yn ei chael ar economi Cymru?	Gweler cwestiwn 36
38	A yw'r effaith economaidd yn seiliedig ar y sector ffermio yn unig, neu sectorau cysylltiedig fel twristiaeth a'r economi ehangach yn gysylltiedig â ffermio?	Byddwn yn cynnal asesiad effaith integredig a fydd yn ystyried sawl sector.
39	Pa mor ddibynnol yw eich dadansoddiadau o effeithiau amgylcheddol ar gyfer y Papur Gwyn yn ymwneud â systemau'n seiliedig ar Aseiad Cylch Bywyd, gan ei fod yn hysbys bod cyfyngiadau penodol i'r rhain gan ddibynnu ar y data sydd ar gael?	Byddwn yn ystyried ystod eang o dystiolaeth wrth ddatblygu ein polisi ac ni fyddwn yn dibynnu ar un math o dystiolaeth.
40	O ran monitro, pa fetrigau fydd yn cael eu defnyddio i fesur gwelliant yn ansawdd y pridd? A fydd arolwg sylfaenol ar gyfer priddoedd ar bob fferm?	Mae iechyd pridd yn elfen allweddol o'n polisi wrth symud ymlaen. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu ein dull o sut y byddwn yn monitro ac yn gwerthuso cynllun y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys iechyd y pridd.
41	A all James roi mwy o wybodaeth i ni ynglŷn â sut maen nhw'n cyfrifo gwerth cymdeithasol?	Mae consortïwm ERAMMP yn datblygu cadwyni rhesymeg a fydd yn nodi'r berthynas rhwng gwerth cymdeithasol nwyddau a gwasanaethau ecosystem a chamau gweithredu rheoli tir cynaliadwy sy'n cael eu cyflawni ar ffermydd.

42	Pa ddata ecolegol sylfaenol a fyddai'n ddefnyddiol ei gasglu nawr cyn dechrau cynlluniau'r dyfodol?	Bydd ein strategaeth yn adeiladu ar ein rhaglen fonitro a gwerthuso flaenorol, sef rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP), sy'n cynnwys arolwg maes ac asesiad parhaus o gyflwr amgylcheddol tir Cymru.
43	Sut fydd y Llywodraeth yn mesur a yw'r cynllun Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn llwyddo yn ei huchelgeisiau? Bydd hyn mor bwysig er mwyn sicrhau parhad unrhyw gyllid ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Yn benodol, sut y bydd yn mesur ac yn dangos i'r cyhoedd yn ehangach sut mae amaethyddiaeth Cymru yn cyfrannu at liniaru'r argyfwng hinsawdd a natur?	Bydd y cynllun Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cael ei werthuso a bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol.
44	A fydd y Papur Gwyn yn mynd yn ei flaen os bydd y Llywodraeth yn newid ym mis Mai? Neu a oes angen i ni ail edrych ar y cynllun?	Mae dau beth y byddwn i'n eu dweud yma. Yn amlwg, mae'n debyg y bydd y pleidiau gwleidyddol yng Nghymru yn cyhoeddi eu maniffesto ar gyfer polisi amaethyddol, a byddwn yn eich annog i gyd i ddarllen y rheini. At hynny, rydym wedi cymryd pwerau o Ddeddf Amaethyddiaeth y DU i sicrhau parhad a sefydlogrwydd yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf, ond mae'r pwerau hyn yn gyfyngedig. Bydd yn rhaid i unrhyw Lywodraeth newydd ystyried deddfu yn y fan hon os maen nhw'n dymuno parhau i weithredu'r Cynllun Taliad Sylfaenol fel y mae ar hyn o bryd, neu ei newid i'r math o system yr ydym ni'n ei chynnig, a bydd hynny'n golygu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i'r Senedd.
45	Pa ddarpariaeth sydd ar gael i atal nodau hirdymor ar gyfer cymorth amaethyddol rhag dod yn gêm bêl-droed wleidyddol?	Y bwriad yw nodi'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer cymorth amaethyddol mewn deddfwriaeth sy'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer pob cymorth yn y dyfodol.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

46	Beth ydych chi'n ei olygu wrth rannu tir?	Rhannu tir yw'r cysyniad o systemau cynhyrchu bwyd yn gweithredu ochr yn ochr â'r amgylchedd naturiol. Nid ydym yn cynnig proses o ddwysáu amaethyddiaeth, nac ail-wylltio, nac i dir naill ai gael ei neilltuo o gynhyrchiant na chael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchiant dwys. Mae dros 80% o'r tir yng Nghymru eisoes yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol, felly rydym ni am i'r tir barhau i gynhyrchu bwyd, ond hefyd i gael ei reoli mewn ffordd a allai sicrhau buddion amgylcheddol. Felly, ffermwyr yn rhannu eu dull gweithredu rhwng cynhyrchiant amaethyddol a'r canlyniadau amgylcheddol yr ydym ni'n chwilio amdanynt.
47	Rwy'n credu bod 'rhannu tir' yn ymadrodd peryglus iawn. Mae'n awgrymu agor tir preifat a busnesau ffermio i'r cyhoedd. A oes unrhyw ymadroddion eraill y gallir eu defnyddio?	Diolch am yr adborth. Doeddwn i ddim wedi clywed amdano'n cael ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwnnw o'r blaen. Rwy'n credu ein bod yn ei ddefnyddio mewn ffordd benodol iawn o amgylch amaethyddiaeth a'n hamgylchedd sy'n gweithredu mewn cytgord gyda'n gilydd, ond byddwn yn sicr yn ystyried yr adborth hwnnw ac yn ystyried ei ddefnydd.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

48

A fyddech yn cytuno nad yw lefelau penodol o ddirwyon yn gymesur a'u bod yn ffafrio'r ffermwyr mwy? Byddai dirwyon sy'n seiliedig ar ganrannau yn gymesur.

Byddwn yn eich annog yn gryf i ymateb i'n hymgyngoriad â'r farn honno. Rwy'n credu bod angen i ni sicrhau ei fod yn gymesur â'r math o dorri rheolau sydd wedi digwydd. Gwyddom ar hyn o bryd nad yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin bob amser yn teimlo'n deg i'r ffermwyr hynny sy'n colli taliad er enghraifft oherwydd camgymeriad technegol, gwaith maes, neu waith papur, a dyna'r union fath o bethau y byddem ni'n dymuno eu gwaredu o system reoleiddio at y dyfodol. Cyn i ni gyrraedd sefyllfa lle byddem yn ceisio gorfodi unrhyw ddirwyon mewn perthynas â'r ffermwyr, rwy'n credu y byddem yn edrych ar beth yw'r niwed gwirioneddol sydd wedi'i wneud i'r amgylchedd a beth all y ffermwr ei wneud i wneud iawn am hynny, ac i orfodi hynny'n gyfrannol. Felly, byddwn yn croesawu ymateb o'r fath i'r ymgynghoriad. Mae'n hollol gywir bod angen i ni ystyried yr egwyddor o gyfundrefn benodol o'i gymharu â chyfundrefn hyblyg. Mae'n waith cymhleth gan ei fod, yn ei hanfod, yn newid y fframwaith trawsgydymffurfiaeth a deddfwriaethol sy'n sylfaen ar ei gyfer yng nghyfraith yr UE a'r gyfraith ddomestig.



Cranfa Amaethyddol Ewrop ar
y Ffer Ffawrion Cymru
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

49	O ran gorfodi, a fydd hawl i apelio ac a fydd canolwr annibynnol yn cael ei ddefnyddio?	Bydd, bydd yn rhaid i'n cynigion alluogi ffermwyr i apelio unrhyw benderfyniadau a wneir drwy'r gyfundrefn orfodi, a bydd rhaid cael canolwr annibynnol i'r broses apelio. Hoffwn ailadrodd ein bwriad yma, ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i ffermwyr yng Nghymru allu cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth sydd eisoes mewn grym, ac rydym ni'n credu mai'r ffordd o wneud hynny yw drwy ddarparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad yn y cyfamser. Dim ond pan fyddwn ni'n wynebu achosion dybryd o dorri rheoliadau presennol y dylem ni fod yn ystyried gwahanol ffurfiau o gosb sifil neu orfodaeth droseddol. Hoffwn fynd yn ôl at y pwynt ynglŷn â cheisio gwneud hon yn system sy'n gymesur, ond sydd hefyd yn seiliedig ar fwriad polisi clir er mwyn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i ffermwyr gydymffurfio gyda'r gyfraith bresennol.
50	A fydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yr un fath ar draws pob sector o'r diwydiant?	Bydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn berthnasol i bob busnes ar draws y diwydiant amaethyddol yng Nghymru fel y'i diffinnir yn Neddf Amaethyddiaeth 1947, a addaswyd gan Ddeddf 1985.
51	Os mae'r safonau'n amrywio gormod gyda'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yng Nghymru a thrawsgydymffurfiaeth yn Lloegr, sut fyddwch chi'n delio gyda ffermydd trawsffiniol?	Mae'r gwahaniaethau rhwng y rheoliadau sy'n berthnasol i ffermwyr yng Nghymru ac yn Lloegr ar hyn o bryd eisoes yn cael eu rheoli trwy gydweithio rhwng y cyrff rheoleiddio priodol. Fel rhan o drafodaethau parhaus gyda DEFRA a rheoleiddwyr yng Nghymru a Lloegr, bydd angen i ni roi ystyriaeth bellach i'r hyn y bydd y diwygiadau hyn yn ei olygu ar lefel ymarferol i ffermydd trawsffiniol. Bydd angen i ni sicrhau bod gan ffermwyr sydd â thir yng Nghymru ddealltwriaeth lawn o'r gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â sut y maent yn ffermio ar y tir hwnnw er mwyn osgoi dryswch.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

52	Cafwyd addewid ynglŷn â symleiddio. Ac eto, mewn adran hir iawn o'r Papur Gwyn, rydych yn nodi bod trawsgydymffurfiaeth a chosbau sifil yn rhan o'r cynllun newydd.	Rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf yn cytuno bod y rheoliadau trawsgydymffurfio presennol yn weddol gymhleth, felly'r hyn rydym yn ceisio'i wneud yw symleiddio'r rheini. Felly, os ydych yn cymryd hynny fel ein llinell sylfaen bresennol, mae trawsgydymffurfio eisoes ar waith, ac wedi bod ar waith ar gyfer ffermydd ledled Cymru dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ac mae deddfwriaeth ddomestig yn sail iddo. Yr hyn yr ydym am ei wneud yw manteisio ar y cyfle i symleiddio'r drefn bresennol honno. Rwy'n derbyn ein bod yn sôn mwy am reoleiddio yn y Papur Gwyn yn amlach nag y byddai unrhyw un yn gobeithio ei weld o bosibl, ond ni allaf bwysleisio digon mai bwriad y polisi sy'n sylfaen i hyn yw ceisio symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol presennol.
53	Pan fydd diffyg cydymffurfio cyfreithiol yn cael ei ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gan aelodau o'r cyhoedd, a fydd y broses yn cynnwys rhoi gwybod i'r aelod o'r cyhoedd am unrhyw gynnydd yn y mater?	Bydd angen ystyried hyn ymhellach.

54	A gafodd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn eu llunio gan ystyried y newidiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i Barthau Perygl Nitradau (NVZ)?	Mae'r Papur Gwyn yn nodi cynigion ar gyfer cyfuno rheoleiddio presennol i greu un set o Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Y nod yw darparu un set o reoliadau, mewn un lle, sy'n eu gwneud yn haws eu deall. Bydd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn darparu'r llinell sylfaen ar gyfer y cynllun arfaethedig, sy'n cynnig talu am gamau gweithredu sy'n mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth reoleiddiol, i ddarparu canlyniadau a werthfawrogir gan gymdeithas Cymru ond nad ydynt yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i reoleiddio a allai ddod i rym cyn y bwriedir i'r cynllun ddechrau. Rydym yn ymwybodol o lefel debygol y rheoleiddio ac yn datblygu cynigion ar gyfer camau gweithredu sy'n mynd y tu hwnt iddynt.
55	Ar ôl cyflwyno'r cynllun hwn sy'n gwyrô'n sylweddol tuag ar yr amgylchedd a'r cynllun NVZ arfaethedig (heb unrhyw randdirymiad ar gyfer tir glas 80% a chynnydd i 250kgN) o ble'r ydych chi'n meddwl y bydd ein bwyd yn dod, gan y bydd POB UN ohonom yn mynd yn organig yn ddiodyn?	Gweler cwestiwn 54
56	O ran y Parth Perygl Nitradau (NVZ), beth yw diben cael ymgynghoriad?	Mae ymgysylltiad effeithiol a gwranddo ar adborth wedi bod yn rhan bwysig o'n dull o ddatblygu polisi - fel y gwelir yng nghynnydd y syniadau yn y ddau ymgynghoriad blaenorol a'n dull o gyd-ddylunio.

57	<p>Un o brif bwyntiau ffocws yr ymgynghoriadau blaenorol oedd cynllunio rheoli maetholion, ac roedd hynny'n cael ei groesawu. A allwch chi egluro sut mae talu am Gynlluniau Rheoli Maetholion fel rhan o'r cynllun newydd yn gweddu o ystyried y rheoliadau NVZ arfaethedig?</p>	<p>Mae cynigion sy'n ymwneud â chynllunio rheoli maetholion yn cael eu datblygu o fewn polisi ehangach sy'n edrych ar reoli'r pridd. Mae hyn yn cynnwys edrych ar gydrannau ffisegol, cemegol a biolegol y pridd a sut y bydd newidiadau i strwythur pridd, rheoli maetholion a dirywiad bioamrywiaeth yn effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ffermio priddoedd Cymru. Mae hyn yn cynnwys materion fel cywasgu neu erydu, anghydbwysedd maetholion a dirywiad gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan anifeiliaid sy'n tyllu, megis awyru'r pridd. Cynigir y bydd unrhyw gynllun yn adeiladu ar y rheoliadau sydd ar waith ar y pryd fel bod y camau y telir amdanynt mewn perthynas â rheoli'r pridd y tu hwnt i gydymffurfiaeth reoleiddiol, gan arwain at ganlyniadau fel y canlynol ar gyfer y gymdeithas yng Nghymru: colli llai o bridd o ffermydd o ganlyniad i erydu, gwella ansawdd dŵr ac aer, gwyrddroi colledion bioamrywiaeth. Mae nifer o ffyrdd y gallai ffermwyr weithio y tu hwnt i reoliadau NVZ yng nghyd-destun polisi rheoli pridd ehangach, gan gynnwys ystyried maetholion eraill a ychwanegir, cynnwys carbon y pridd, neu fesuriadau ffisegol neu fiolegol o'r pridd.</p>
58	<p>A fydd treth ar ddefnyddio gwrtaith nitrogen fel rhan o'r rheolau Parth Perygl Nitradau (NVZ)?</p>	<p>Na</p>

59

Pa gymorth fydd ffermwyr yn ei gael i'w cynorthwyo i gydymffurfio gyda'r polisi NVZ ar gyfer Cymru gyfan?

Rhwng 2018 a 2020, roedd £22m ar gael i ffermwyr drwy'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy i wella dulliau rheoli maetholion ac i leihau llygredd ar ffermydd. Dyrannwyd £22.5m ychwanegol i gefnogi ffermwyr yn ystod y cyfnod hwn ac i mewn i 2021. Mae hyn yn fuddsoddiad o £44.5m gyda'i gilydd. Mae cyfnodau pontio o fewn y rheoliadau yn rhoi amser i ffermwyr ystyried y camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion isadeiledd. Mae'r cyllid cyfalaf wedi cael ei ddyrannu'n unol â'r galw a ragwelir. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus. Cyhoeddir canllawiau manwl ar y rheoliadau a'r adnoddau cymorth dros y dyddiau nesaf.

60

A fydd rheolau'n cael eu tynhau ynghylch dulliau rheoli tir a ddefnyddir gan ffermwyr sy'n achosi colledion pridd, a llygredd dŵr er enghraifft ar hyn o bryd? Ar hyn o bryd, rwy'n gweld slyri'n cael ei chwistrellu a phridd yn cael ei botsio ger fy afon leol, ac efallai nad yw'n anghyfreithlon yn dechnegol (dydw i ddim yn siŵr), ond mae'n bendant yn achosi llygredd a cholledion pridd.

Bydd y rheoliadau newydd yn disodli'r rheoliadau Parth Perygl Nitradau (NVZ) presennol, ond ychydig iawn o newidiadau fydd yn cael eu gwneud i'r gofynion a'r arferion. Yn gyffredinol, ni fydd y cyfnodau pontio yn berthnasol i ffermydd o fewn Parthau Perygl Nitradau. Darperir rhagor o wybodaeth yn y dogfennau canllaw. Nid yw'r rheoliadau hyn yn gosbol. Byddant yn gosod safonau sylfaenol yng Nghymru, sy'n debyg i'r rhai yng ngweddill y DU a rhannau helaeth o Ewrop. Mae ffermwyr yng Nghymru'r un mor gymwys i weithio i'r safonau sylfaenol hyn ac mae llawer eisoes yn gwneud hynny. Mae'r rheoliadau'n gymesur â pheryglon llygredd sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol. Maent yn seiliedig ar argymhellion arfer da, felly bydd rhai ffermwyr yn gweld ychydig iawn o effaith, yn enwedig y rhai hynny sydd eisoes yn dilyn arfer dda, a bydd eraill angen amser a chymorth i wella.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

61	A gafodd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn eu llunio gan ystyried y newidiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i Barthau Perygl Nitradau (NVZ)?	Gweler cwestiwn 54
62	A yw lledaenu ardal Parth Perygl Nitradau (NVZ) ar draws Cymru yn ymdrech i symleiddio polisi?	Mae llygredd amaethyddol yn effeithio'n andwyol ar amgylchedd Cymru ac oherwydd hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Nid yw tystiolaeth o arfer gwael a llygredd yn gyfyngedig i un ardal neu fath o fferm. Mae'r rheoliadau'n gymesur, gan ganolbwyntio ar y ffermydd hynny lle mae'r risg amgylcheddol o ddiffyg rheoli slyri a maetholion yn briodol ar ei uchaf, gyda ffermwyr sydd eisoes yn gweithredu'n unol â'r safonau a argymhellir yn gweld ychydig iawn o effaith ar eu gwaith.
63	Os mai symleiddio yw'r nod, pam cyflwyno mwy o reoliadau papur gyda'r Parth Perygl Nitradau (NVZ) er enghraifft?	Gweler cwestiwn 54
64	A gafodd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn eu llunio gan ystyried y newidiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i Barthau Perygl Nitradau (NVZ)?	Gweler cwestiwn 54
65	Os mai rhannu tir yw'r nod, a oes posibilrwydd y bydd y cynllun organig yn cael ei agor ar gyfer ffermwyr newydd?	Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno cynllun i drawsnewid i ffermio organig, er ein bod yn parhau i gefnogi'r gwaith o gynnal dulliau ffermio organig ar gyfer y rhai sydd â chytundeb presennol trwy Glastir Organig, sydd bellach ar gau i geisiadau newydd.

66	A ydym yn debygol o weld cynllun organig yn y dyfodol?	Mae ein cynnig yn eithaf clir, sef ein bod yn edrych ar un cynllun ffermio cynaliadwy, a ddylai fod ar gael i bob ffermwr, ac felly o fewn hynny dylai fod lle i ffermio organig yn sicr. Nid cynllun organig yw'r cynllun newydd, ond credaf y bydd rhai o'r mathau o arferion rheoli tir y mae llawer o ffermwyr organig eisoes yn ymgymryd â hwy yn eu rhoi mewn sefyllfa dda i bennu a fyddent eisiau ymuno â'r cynllun newydd ai peidio.
67	A fydd elfen organig i'r cynllun newydd?	Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynllun trosi i ffermio'n organig.
68	A fydd y cynllun newydd yn gwella ffermio organig fel y mae cynlluniau'r UE wedi'i wneud yn y gorffennol? Hefyd a fydd ffermydd o fewn cynlluniau Glastir yn cael rhywfaint o gysondeb wrth symud ymlaen?	Gweler cwestiwn 66
69	Rydw i braidd yn bryderus gan fy mod yn fy mlwyddyn olaf o gytundeb Glastir Organig. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn allweddol er mwyn caniatáu i ni dyfu ein busnes. A alla i fod yn sicr y bydd rhywbeth yn dod yn lle'r cynllun hwn?	Cafodd busnesau fferm yr oedd eu cytundebau Glastir yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020 gynnig adnewyddu neu ymestyn eu cytundebau hyd 31 Rhagfyr 2021, gan gynnwys deiliaid cytundeb Glastir Organig. Nid oes sicrwydd y tu hwnt i fis Rhagfyr 2021; rydym yn ystyried dyfodol cytundebau Glastir yng nghyd-destun y cyllidebau domestig newydd wrth iddynt ddod ar gael, a sut y dylid ystyried y gefnogaeth a ddarperir drwy Glastir yn ystod y cyfnod pontio i gynlluniau cymorth arfaethedig yn y dyfodol. Hyd nes y caiff cyllideb y dyfodol ei chadarnhau a'r ffordd orau o drosglwyddo i unrhyw Gynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, nid ydym mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar gontractau Glastir y tu hwnt i fis Rhagfyr 2021 ar hyn o bryd.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

70	Fydd polisi yn y dyfodol yn adnabod ac yn gwobrywo y gallu o lysysyddion wedi eu rheoli'n dda sy'n gwella gweithgarwch ecosystem a bioamrwyaeth ar laswelltir?	Bwriad ein cynigion yw annog camau gweithredu ar ffermydd i alluogi anifeiliaid/ffermydd i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy. Rydym ni'n sôn am amrywiaeth o gamau y gellir eu cymryd nawr i ddarparu'r canlyniadau amgylcheddol yr ydym ni'n chwilio amdanynt, ac mae nifer o ffermwyr eisoes yn gwneud hyn. Yr hyn yr ydym ni'n bwriadu ei wneud yw cael amrediad o gamau gweithredu a ddylai fod yn berthnasol ar ffermydd yng Nghymru, yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid, rheolaeth tir at y dyfodol, y gall ffermwyr eu cwblhau ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd, ac y byddwn wedyn yn eu gwobrywo amdanynt.
71	Rwy'n deall taliadau ar gyfer canlyniadau dymunol, ond beth os ydym ni eisoes yn cymryd camau, megis osgoi defnyddio gwrteithiau a chwistrellu ac yn gwella priddoedd? A fyddwn ni'n cael ein talu am barhau i wneud yr hyn yr ydym ni eisoes yn ei wneud?	Yr hyn yr ydym ni am ei wobrywo yw rheolaeth o'r tir, ac os mae ffermwyr eisoes yn gwneud y pethau sy'n sicrhau'r canlyniadau yr ydym ni'n chwilio amdanynt, a bod hynny'n golygu cymryd camau, nid yw hynny'n golygu gadael y tir i fod, dylai ffermwyr weld y trawsnewid yn rhwydd ac yn syml iawn.
72	A fyddwch chi'n talu ffermwyr sy'n defnyddio systemau amgen sy'n hyrwyddo iechyd y pridd a chynyddu capasiti'r pridd i storio carbon e.e. systemau ffermio adfywiol?	Byddwn. Mae rheoli'r pridd yn un o'r prif feysydd o ddiddordeb yn y cynllun arfaethedig. Rydym yn asesu camau gweithredu yn ôl eu potensial i ddal a storio carbon yn y pridd, i gynnal y carbon sydd eisoes yn y pridd, ac i wella pob agwedd ar iechyd y pridd ar draws y cydrannau ffisegol, cemegol a biolegol.
73	A fydd ffermwyr yn cael eu gwobrywo am dir sy'n cael ei adael i orlifo er mwyn diogelu tai?	Mae'n bosibl. Byddai hynny'n rhan o gynnig manwl ar gyfer y cynllun sy'n dal i gael ei ddatblygu. Rwy'n credu os oes gennych chi syniadau ynglŷn â hyn, byddem yn eich annog i ymateb i'n hymgyngoriad gan ei fod yn bendant yn rhywbeth y gallwn ei ystyried ar y cyd â'n cydweithwyr dŵr a llifogydd yma yn Llywodraeth Cymru.

74	Onid yw talu ffermwyr am gamau gweithredu sy'n arwain at ganlyniadau yr un fath â chynllun Glastir?	Drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy rydym yn cynnig talu am gamau gweithredu sydd â chyswllt amlwg â chanlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd gwerth y canlyniadau hyn i'r gymdeithas ehangach yn sail i'n hystyriaeth o daliadau ar gyfer camau gweithredu, yn hytrach na'r costau ar gyfer incwm a gollwyd fel y defnyddir gyda Glastir. Roedd camau gweithredu o fewn cynllun Glastir wedi'u rhagnodi. Rydym ni'n ceisio strwythuro camau gweithredu a fydd yn galluogi ffermwyr i weithredu ar sail eu gwybodaeth am eu tir/sefyllfa benodol.
75	Gan gadw ein hymrwymiad i sero net mewn cof, a fydd y canlyniadau a dargedir ar gyfer gwella priddoedd neu gwytnwch ecosystemau'n ystyried dal a storio carbon ar y fferm?	Bydd. Bydd hwn yn chwarae rhan bwysig yn ein hymdrechion i gyrraedd ein targed sero net.
76	A ydych yn cytuno bod yn rhaid ystyried bod unrhyw ddal a storio carbon y mae'r cynllun yn gobeithio ei gyflawni yn ad-dalu dyled carbon yn hytrach na chael ei ystyried yn nwydd y gellir ei werthu i alluogi pobl gyfoethog i brynu eu ffordd allan o orfod newid ymddygiad?	Bydd amaethyddiaeth a defnydd tir yn chwarae rôl bwysig o ran dal a storio carbon ynghyd â sectorau eraill yn cwrdd â'u targedau allyriadau eu hunain.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

77	<p>Rydych yn cyfeirio bod y polisi hwn yn cynnwys cynhyrchu bwyd. Ond nid yw hynny'n wir. Bydd y cyfeiriad polisi hwn tuag at ddiffiniad cul o nwyddau cyhoeddus yn arwain at ddiwedd ffermydd teuluol yng Nghymru ac yn drychinebus i'r economi wledig a chymunedau a busnesau gwledig yng Nghymru. Mae angen ailfeddwl o ddifrif am eich cyfeiriad a'r newid o ran pwyslais.</p>	<p>Byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn gwobrwo ffermwyr am ymgymryd â champau gweithredu sy'n darparu canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy, megis ansawdd dŵr, iechyd anifeiliaid a bioamrywiaeth. Mae cynhyrchu bwyd cynaliadwy yn rhan allweddol o Reoli'r Tir yn Gynaliadwy. Ceir canlyniadau y gellir eu cyflawni ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy; rydym ni eisiau talu am y canlyniadau hynny.</p>
78	<p>A fydd gwelliannau mewn iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid yn cael eu cydnabod a'u gwobrwo gan y cynllun newydd, neu ai canlyniadau amgylcheddol yn unig a fydd yn cael eu gwobrwo?</p>	<p>Rydym yn cynnig integreiddio amcanion iechyd a lles anifeiliaid yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.</p>
79	<p>Nid oes sôn am wobrwyo ffermwyr am gynhyrchu bwyd diogel o ansawdd uchel, dim ond gweithredoedd amgylcheddol. Pam hynny?</p>	<p>Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i dalu am ganlyniadau nad ydynt yn cael eu gwobrwo gan y farchnad. Fodd bynnag, bydd gwobrwo ffermwyr am gyflawni canlyniadau Rheoli'r Tir yn Gynaliadwy hefyd yn helpu ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy - mae cynhyrchu bwyd a gwynwch amgylcheddol yn gysylltiedig â'i gilydd.</p>
80	<p>Sut mae'r llywodraeth yn mynd i fesur cynaliadwyedd cymdeithasol cefn gwlad?</p>	<p>Rydym yn datblygu metrigau ar gyfer pob un o o'r canlyniadau Rheoli'r Tir yn Gynaliadwy.</p>
81	<p>Sut allwch chi feintioli neu fesur aer a dŵr glân o ran taliadau?</p>	<p>Rydym yn cynnig talu am gamau sy'n dangos tystiolaeth o gyswllt gyda'r canlyniadau yr ydym ni'n eu ceisio. Bydd y cyswllt hwn yn ein cynorthwyo i ddeall lefelau'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni, a bydd gwaith monitro a gwerthuso pellach yn helpu i asesu hyn ymhellach.</p>

82	<p>Oherwydd cyllideb gyfyngedig ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, a fydd y cynllun yn cael ei osod o fewn fframwaith cystadleuol h.y. a fydd taliadau'n cael eu sgorio a'u rhestru yn eu trefn, gyda therfyn yn seiliedig ar gyfyngiadau'r gyllideb?</p>	<p>Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ar daliadau na sut y caiff y gyllideb ei rheoli.</p>
83	<p>Pan fydd taliadau'n gysylltiedig â buddion amgylcheddol, mae'n ymddangos i mi y bydd tirlfeddianwyr mawr yn cael mwy o gyfleoedd i ddarparu buddion amgylcheddol ac felly'n cael mwy o arian gan eu galluogi i fod yn dirfeddianwyr mwy - fel sydd wedi digwydd i raddau helaeth gyda thaliadau'r UE. Beth fydd y system newydd yn ei wneud i atal hyn rhag digwydd?</p>	<p>Un opsiwn er mwyn dylanwadu ar ddyraniad cyllid fyddai gosod uchafswm ar gyfer taliadau ar lefel benodol. Rydym yn archwilio sut y gallai gosod uchafswm ein cynorthwyo i sicrhau y byddai ffermydd llai yn cael eu gwobrwyo ac na fyddai ffermydd mwy'n derbyn swm anghymesur o'r cyllid.</p>

84	<p>Sut fydd tegwch yn cael ei ymgorffori o fewn y system? Mae taliadau amgylcheddol presennol yn cael eu llwytho ar ardaloedd penodol, gyda rhai ardaloedd dan anfantais oherwydd eu lleoliad.</p>	<p>Mae ein cynigion yn sôn am y camau gweithredu a ddylai fod ar gael ar ffermydd, i wella priddoedd, rheoli cynefinoedd, iechyd a lles anifeiliaid fel yr ydym wedi sôn amdanynt o'r blaen. Credaf y dylai'r rhan fwyaf o'r camau hynny fod ar gael i'r rhan fwyaf o ffermydd. Credaf fod angen inni gydnabod y bydd rhywfaint o gymhlethdod gan nad oes yr un fferm yng Nghymru yr un fath felly mae angen i ni weithio drwy'r cymhlethdod hwnnw, ond mae angen i ni sicrhau bod y cyfraddau talu'n gymesur â'r camau a gymerwyd. Rydym eisiau sicrhau bod cynifer o ffermydd â phosibl yng Nghymru yn dod i mewn i'r cynllun. Pam ydym ni eisiau hynny? Wel oherwydd ein bod ni eisiau prynu'r canlyniadau oddi ar ffermwyr, y nwyddau cyhoeddus yr ydym wedi sôn amdanynt o ran aer glân, dŵr glân, dal carbon ac ati. Fel llywodraeth, rydym yn awyddus i'w prynu felly rydym ni eisiau ei wneud mor ddeniadol ag y gallwn, ond gan gydnabod yn amlwg y bydd yn rhaid i hynny fod o fewn cyfyngiadau pa gyllideb bynnag y cytunir arni yn y dyfodol.</p>
85	<p>A yw hyn yn golygu felly, mai dim ond os ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau y bydd ffermwyr yn cael taliad?</p>	<p>Ydy. Dim ond am gamau gweithredu sy'n darparu canlyniadau y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol yn y rheoliadau fyddwn ni'n talu.</p>
86	<p>Er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad sylweddol mewn bioamrywiaeth, a gan ystyried ein bod ni hefyd wedi cael cwmp sylweddol yn y Taliad Sylfaenol, mae'n hanfodol bod ffermwyr yn cael tâl priodol i dynnu tir allan o'r ardal gynhyrchol a'i symud tuag at greu cynefin ar gyfer bywyd gwylt. A allwch gynnig unrhyw sicrwydd y bydd taliadau cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus ar</p>	<p>Rydym wedi cynnig mynd y tu hwnt i'r model 'incwm a ildwyd a chostau a wynebwyd' ac adlewyrchu gwerth y nwyddau amgylcheddol a ddarperir mewn taliadau cynllun yn y dyfodol.</p>



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

	lefel synhwyrol, ymhell uwchlaw'r incwm a ildiwyd, neu fel arall ni fyddwch yn cael y niferoedd y mae arnom eu hangen ledled Cymru?	
87	Sut fydd cyfraddau talu'n cael eu cyfrifo, fesul hectar neu fesul busnes?	Rydym ni'n dal i ddatblygu ein dull gweithredu o ran hyn.
88	A fydd taliadau ar gael ar gyfer yr holl dir sy'n cael ei reoli gan unigolyn ar unrhyw adeg benodol, neu a fydd y taliadau'n adlewyrchu lefelau hawliadau Cynllun Taliad Sylfaenol presennol unigolion?	Rydym yn dal i ddatblygu ein dull gweithredu o ran hyn, ond mae'r hyn yr ydym ni'n ei gynnig yn wahanol i'r Cynllun Taliad Sylfaenol a bydd yn seiliedig ar lefel y camau gweithredu a wneir gan y ffermwr.
89	Sut fydd y cynllun newydd yn cael ei dalu? Fesul erw neu drwy unrhyw ddull arall? A fydd newydd-ddyfodiaid yn gallu ymuno â'r cynllun?	Rydym ni'n dal i ddatblygu ein dull gweithredu o ran taliadau a chymhwysedd ar gyfer y cynllun arfaethedig..



Cranfa Amaethyddol Ewrop ar
y Ffer Gwledig Cymru
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

90

Pa mor fuan y gallwn ddisgwyl gweld rhyw fath o ffermydd peilot neu dreialu cynlluniau yn y dyfodol? Hefyd, ychydig iawn o drafodaeth a gafwyd ynglŷn â pholisi a chynlluniau tir comin yn y dyfodol.

Gobeithiwn allu cyhoeddi rhagor o fanylion am y cynllun yn ddiweddarach eleni gyda'n cam nesaf o gyd-ddylunio yn ddiweddarach eleni. Gobeithiwn y bydd hynny'n arwain at gyfnod prawf a threialu'r rhaglen. Soniais am ein cyfnod pontio yn dechrau yn 2024, a chredaf fod hynny'n rhoi cyfle da inni brofi rhai o'r cynigion wrth inni ddechrau ar y cynllun. Mae hyn yn bwysig am ychydig resymau. Yn gyntaf, mae angen i ni ddangos yn gwbl glir bod y camau gweithredu'n ymarferol ar wahanol fathau o ffermydd yng Nghymru. Yn ail, eu bod yn sicrhau'r manteision yr ydym yn eu ceisio o ran y canlyniadau amgylcheddol. Ac yn drydydd, i sicrhau y gallwn wneud iddo weithio i Gymru gyfan. Yn sicr, wrth inni ddod i ddiwedd y flwyddyn hon a'r cam nesaf o'r cyd-ddylunio, byddwn ni'n edrych sut y gallwn ni ddatblygu'r syniadau hynny ymhellach i roi enghreifftiau ymarferol ar dir yng Nghymru. Gan gydnabod faint o diroedd Cymru sydd dan drefniadau tir comin, mae'n bwysig bod y cynllun yn cynnwys y gallu i ffermwyr gyflawni camau gweithredu ar dir comin. Yn ôl natur y ffordd y trefnir tir comin ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn rhan fwy cymhleth o'r cynllun i'w ddylunio. Ond yn sicr, mae angen i ni sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu'r camau y gellir eu cymryd ar dir comin oherwydd y cyfle i ddarparu'r mathau o fuddion yr ydym yn sôn amdanynt. Pan fyddwn yn mynd yn ôl i siarad am gyfnodau prawf a threialon, rwy'n credu ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn ei brofi mewn ardaloedd fel tir comin i sicrhau y gall y cynllun weithio ar lefel y tu hwnt i'r fferm unigol.

91	<p>"Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn barod i dalu am y nwyddau canlynol...." - dŵr glân. Ond ar yr un pryd, mae LIC yn anelu at fireinio gweithdrefn o gosbau sifil i gefnogi ffermwyr (er enghraifft i helpi i osgoi'r egwyddor "y llygrwr sy'n talu" mewn parthau perygl nitradau ayb) . A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw brosiectau peilot ar waith ar hyn o bryd sy'n edrych ar sut i wneud hyn?</p>	Gweler cwestiwn 90
92	<p>A fydd cyfle yn ail gam y broses gyd-ddylunio i weithio ar reoli llifogydd yn naturiol ar ein ffermydd.</p>	<p>Ar hyn o bryd, rydym ni wrthi'n llunio cwmpas y cam nesaf yn y broses gyd-ddylunio a byddwn yn cyhoeddi manylion yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p>
93	<p>A fydd cefnogaeth drwy Cyswllt Ffermio i ddatblygu cynlluniau peilot i lywio'r broses bontio, yn enwedig ym maes yr amgylchedd a nwyddau cyhoeddus?</p>	<p>Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol iawn bod Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnal cynlluniau peilot ac rwy'n credu wrth i'n cynigion ar gyfer y cynllun ddatblygu, y byddai ceisio ymgorffori rhai o'r cynigion o fewn rhai o'r cynlluniau peilot hyn, ac yn ehangach drwy Cyswllt Ffermio yn gyfle gwych i ddangos pa mor effeithiol y gallai'r cynllun newydd hwn fod, beth fyddai'n ei olygu i ffermwyr, ac i alluogi rhyw fath o drosglwyddo gwybodaeth hefyd. Byddai'n ymddangos i mi fel lle amlwg i edrych.</p>



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

94

A ydych yn mynd i sicrhau bod gwaith papur yn hawdd i'w reoli ac yn deg i bawb?

Ydym. Rwy'n credu bod cofnod o'r Gweinidog yn nodi bod angen i ni gymryd y cyfle o ganlyniad i adael yr UE, i wneud y broses mor syml ac ymarferol â phosibl o safbwynt gweinyddiaeth. Rydych chi wedi gweld rhai o'r newidiadau yr ydym ni eisoes yn gallu eu cyflwyno yng Nghymru trwy'r ymgynghoriad ar symleiddio a lansiwyd gennym y llynedd i symleiddio'r cynllun newydd a'i wneud yn haws i'w weinyddu. Yn sicr, mae angen inni gymryd y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i flynyddoedd o redeg cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yng Nghymru wrth inni symud at y cynllun newydd. Yna mae angen i ni feddwl hefyd am ddefnyddio technoleg yn effeithiol, ac rwy'n golygu technoleg yn yr ystyr ehangaf, o ran sut y bydd taliadau fferm yn cael eu gweinyddu, ond hefyd y dechnoleg y gellir ei defnyddio ar y fferm i sicrhau bod dulliau monitro effeithiol a synwryddion o bell ar gael i gadw golwg ar yr hyn yr ydym ni'n ceisio ei wneud. Felly, heb unrhyw amheuaeth, byddwn ni'n dymuno gwneud hyn mor syml a rhwydd â phosibl i ffermwyr o safbwynt gweinyddol, a byddwn yn eu cefnogi drwy'r broses honno yn ogystal. Mae un o brif agweddau ein cynllun yn ymwneud â gwasanaeth cynghori a fydd ar gael i ffermwyr drwy gydol y cyfnod pontio i'w cynorthwyo i symud o'r systemau presennol i'r systemau newydd.



Cranfa Amaethyddol Ewrop ar
y Fferm Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

95	<p>Mae'r ymgynghoriad yn nodi y bydd y cynigion yn arwain at gynnydd mewn cynnyrch tir â'r garddwriaeth. Pa fath o gymorth fydd ar gael i gyflawni hyn?</p>
96	<p>Rydych chi wedi sôn am ymgynghori droeon. A allwch restru'r hyn a newidodd mewn gwirionedd yn y Papur Gwyn yn dilyn ymatebion i'r cynigion yn y ddau ymgynghoriad cyntaf?</p>

Cefnogaeth yn yr ystyr ehangaf. Rydym wedi sôn am y cymorth refeniw yr ydym yn ceisio'i ddarparu yn y dyfodol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Os ydych wedi cael cyfle i ddarllen y Papur Gwyn, byddwch hefyd yn gweld y cymorth busnes a'r gadwyn gyflenwi yr ydym am ei ddarparu, h.y. sut y gallwn ni gefnogi busnesau fferm newydd a mentrau newydd ar y fferm i lwyddo ac i ffynnu, ac rydym yn sôn am gefnogaeth yn yr ystyr ehangaf posibl, ar ffurf cyngor, ar ffurf grantiau cyfalaf o bosibl, efallai trwy drosglwyddo gwybodaeth a'r gallu i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Rydym ni'n sicr yn edrych ar gefnogi pob un o'r agweddau hyn, ac rwy'n credu mai un o'r rhesymau pam ein bod ni, o bosibl, eisiau gweld cynnydd yn y sector â'r garddwriaeth yw oherwydd ein bod ni eisiau sicrhau bod ein cadwyn gyflenwi mor fyr â phosibl yng Nghymru. Gan ystyried y sectorau hynny'n benodol, efallai y bydd cyfleoedd i gwtogi rhai o'r cadwyni cyflenwi a datblygu busnesau mewn ffordd nad oedd cefnogaeth ar ei gyfer yn y gorffennol dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Roedd y ddau ymgynghoriad blaenorol yn benodol ar ein cynigion ar sut i gefnogi ffermwyr ar ôl Brexit. Mae'r Papur Gwyn yn nodi'r pwerau sydd eu hangen arnom i wneud hyn (yn ogystal ag ar gyfer rhai pwerau eraill). Gallwch ddarllen ein hymateb i'r ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ar ein gwefan.
<https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-11/sustainable-farming-summary-of-responses.pdf>

97	Pwy fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â hyn unwaith y bydd yn ei le, ai Awdurdodau Lleol neu Lywodraeth Cymru?	Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd amrywiaeth o gyrrff cyhoeddus yn gyfrifol am hyn.
98	Fel ffermwr mynydd ymylol, dim ond gyda chymorthdaliadau y gall fy musnes oroesi. Ar ôl darllen y ddogfen ni allaf weld sut y bydd y gefnogaeth yn parhau?	Rwy'n cyfeirio'n ôl at y darn o waith tystiolaeth yr ydym ni'n ei wneud. Rydym bob amser wedi bod yn glir bod angen i'r cynllun fod ar gael i bob math gwahanol o ffermydd yng Nghymru, gwahanol sectorau, gwahanol ranbarthau, ac felly rhan o ddatblygu ein sylfaen o dystiolaeth yw profi y bydd y mathau o gamau gweithredu yr ydym ni eisiau eu cyflawni ar ffermydd ochr yn ochr â'r cyfraddau talu yn galluogi'r ffermydd hynny i ddod yn rhan o'r cynllun ac yn eu galluogi i fod yn hyfyw yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod y pryderon hyn yn llwyr, ond rydym yn gweithio ar ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a fydd yn ein galluogi i ddangos y gallai pob math o ffermydd yng Nghymru ymuno â'r cynllun ac y byddai'r cyfraddau talu yn cydnabod gwerth y canlyniadau amgylcheddol y maent yn eu cyflawni, felly gan fynd y tu hwnt i'r model cost hwnnw a welwn ar hyn o bryd.
99	A fydd yn ddichonadwy ar gyfer ffermydd ucheldir a llawr gwlad, h.y. ffermydd biff a defaid o'i gymharu â ffermydd llaeth?	Ein nod yw rhestru ystod eang o gamau gweithredu amrywiol y gall ffermwr ymgymryd â hwy ar unrhyw fath o fferm.
100	A yw hyn yn golygu y dylai fferm fwy traddodiadol gael mwy o help na'r cynhyrchwyr mawr h.y. ffermydd dofednod a moch?	Dylai'r rhan fwyaf o ffermydd sy'n seiliedig ar y borfa, sef mwyafrif y ffermydd yng Nghymru, fod yn addas iawn ar gyfer y cynllun.
101	Mae ein fferm mewn SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig). Prin y gallwn wneud unrhyw beth gyda'n tir i wella neu arallgyfeirio i wneud busnes proffidiol ac nid ydym yn cael unrhyw gymorth ariannol ar gyfer	Rydym yn archwilio sut y gall y cynllun gefnogi ac ategu amcanion ardaloedd cadwraeth fel SoDdGA a gwobrwyo ffermwyr am y rôl bwysig y maent yn ei chwarae wrth eu rheoli.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

	<p>hyn. A fydd hyn yn newid gyda'r cynllun newydd neu a fydd budd ariannol i fod mewn SoDdGA?</p>	
102	<p>A fydd y cynllun yn rhoi rhwymedigaethau ar reolwyr tir i ddefnyddio eu tir yn briodol h.y. priddoedd garddwriaethol yn cael eu defnyddio ar gyfer garddwriaeth ac nid ar gyfer porthiant neu fiodanwydd?</p>	<p>Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniad hyd yma ar feini prawf cymhwysedd y cynllun nac wedi nodi unrhyw rwymedigaeth ar gyfer rheoli'r tir, ond mae'n rhywbeth yr ydym yn ei archwilio a byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant ar hyn.</p>
103	<p>Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i osgoi camgymeriadau dull ticio blwch Glastir?</p>	<p>Mae ffermwyr yn adnabod eu fferm yn well na neb. Lle bynnag y bo modd, rydym yn ceisio cynnwys hyblygrwydd i ganiatáu i ffermwyr benderfynu sut i gyflawni'r gweithredoedd ar eu fferm.</p>
104	<p>Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i reoli gwiwerod llwyd? Mae eu presenoldeb yn cyfyngu'n sylweddol ar opsiynau ar gyfer rheoli'r tir yn gynaliadwy e.e. cael coetir llydanddail cymysg cynhyrchiol h.y. disodli cynhyrchu cig gyda pherllannau cnau (sef yr hyn sy'n gweddu orau i'n hinsawdd a nifer o'n mathau o bridd).</p>	<p>Mae ein Cynllun Gweithredu Rheoli Gwiwerod Llwyd yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud i leihau effaith gwiwerod llwyd ar boblogaethau gwiwerod coch a choetiroedd.</p>
105	<p>Faint o bwyslais yn y Papur Gwyn fydd ar annog pobl ifanc i'r diwydiant ac i rwystro'r allfudo o ardaloedd gwledig, lle'r ydym ni'n colli ffermwyr gwych i ardaloedd trefol?</p>	<p>Rydym yn archwilio sut y gallai'r cynllun helpu i ddod â newydd-ddyfodiaid a phobl ifanc i'r sector ffermio, gan ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio ac nad yw wedi gweithio yng nghynlluniau'r gorffennol.</p>
106	<p>A fydd Llywodraeth Cymru yn gosod unrhyw dargedau ochr yn ochr â'r SMS (Cynllun Rheoli Cynaliadwy) - i fesur a yw'n llwyddo i gyflawni ei huchelgeisiau e.e. yn ymwneud â'r uchelgeisiau hinsawdd a natur a soniwyd amdanynt?</p>	<p>Byddwn yn adrodd yn flynyddol ar ein cynnydd yn erbyn y targedau ar gyfer pob canlyniad ac yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennym i ddangos pa mor gynaliadwy yw'r ffermydd o fewn y cynllun.</p>

107	Os yw fferm yn dewis gweithredu fel busnes heb gymorthdaliadau ac yn cydymffurfio â rheolau sylfaenol ond yn dewis gweithredu ar ei ben ei hun yn ariannol, a fyddai potensial i gynlluniau a ariennir gael eu gorfodi ar y busnes i gydymffurfio â dymuniadau Llywodraeth Cymru?	Mae'r cynllun arfaethedig yn wirfoddol.
108	A fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr i werthu credydu carbon h.y. trwy god mawndir?	Mae gennym ddi-ddordeb mawr mewn dylunio'r cynllun mewn ffordd a fyddai'n gallu helpu mwy o ffermwyr i gael tâl am wasanaethau ecosystem.
109	Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod pori cymysg yn parhau o ystyried pwysigrwydd gwartheg ar gyfer rheolaeth amgylcheddol?	Rydym yn dymuno gwobrwyo pori cymysg ac yn enwedig rôl arferion pori gwartheg wrth reoli cynefinoedd.
110	A fydd ceffylau bridio yn ennill statws amaethyddol o fewn y cynllun newydd fel y maent eisoes yn Lloegr?	Byddai gennym ddi-ddordeb mewn clywed mwy gennych ar hyn fel rhan o'n hymgyngoriad Papur Gwyn.
111	Os yw gweithredoedd a chanlyniadau yn cyd-fynd â meini prawf FAWL, a fyddai'r Llywodraeth yn derbyn "cydnabyddiaeth a enillir" fel rhan o'r cyllid newydd os yw cynhyrchwyr yn gymwys ar gyfer gwarant fferm ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid er enghraifft?	Bydd, bydd cynlluniau gwarant fferm ac ardystio'n cael eu defnyddio fel cydnabyddiaeth pan fo'r safonau'r un fath â safonau'r cynllun.
112	Sut fydd hi'n bosibl rheoli gweithgareddau negyddol gan y cyhoedd ar ffermydd, e.e. tipio anghyfreithlon, difrod i gnydau o ganlyniad i dresmasu ayb heb gosbi rheolwyr tir dan y cynigion newydd?	Disgwylwn i unrhyw un sy'n ymweld â chefn gwlad ddilyn y Cod Cefn Gwlad.

113	Yn y gorffennol, roedd gwefan a oedd yn nodi faint yr oedd pob fferm wedi'i hawlio. A fydd y swm y bydd pob fferm yn ei gael yn cael ei wneud yn gyhoeddus o fewn y cynllun newydd hwn?	Roedd hwn yn ofyniad yr UE ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yn hyn ar sut y bydd y cynllun yn cael ei weinyddu.
114	A fydd mesur lefelau deunydd organig mewn priddoedd yn un o'r mesurau a ddefnyddir i asesu iechyd pridd?	Bydd
115	A fydd cefnogaeth i gyflogi pobl, a thrwy hynny gynyddu'r gronfa sgiliau yn hytrach na chefnogi tirlfeddianwyr mwy i dyfu'n fwy?	Rydym yn archwilio sut y gallai gosod uchafswm ein cynorthwyo i sicrhau y byddai ffermydd llai yn cael eu gwobrwo ac na fyddai ffermydd mwy'n derbyn swm anghymesur o'r cyllid.
116	Byddai llawer o'r gwaith amgylcheddol yn dibynnu ar wartheg. Mae nifer y gwartheg bïff yn dirywio oherwydd TB a phoblogaeth ffermio sy'n heneiddio, a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw beth i helpu gyda TB?	Rydym wedi gweld cynnydd da tuag at waredu TB ers i ni sefydlu'r rhaglen yn 2008, gyda gostyngiadau tymor hir mewn achosion newydd a phresenoldeb y clefyd. Dros y 12 mis diwethaf, hyd at fis Medi 2020, gwelwyd gostyngiad o 10% yn nifer yr achosion TB mewn buchesi newydd o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol. Dyma'r 27ain mis yn olynol lle bu gostyngiad yng nghyfanswm y 12 mis o achosion mewn buchesi newydd. Ar ddiwedd mis Medi 2020, roedd 97.3% o fuchesi bïff Cymru'n rhydd rhag TB. Mae hon yn gyfran uwch o'i gymharu â mis Medi 2019, lle'r oedd 97.1% o fuchesi cig eidion yn rhydd rhag TB.
117	A fydd pecyn ymddeol i alluogi ffermwyr hŷn i drosglwyddo i'w meibion/merched a dal i dderbyn math o incwm?	Nid yw pecyn ymddeol ar gyfer ffermwyr yn rhan o'n cynigion presennol.

118	Faint o rôl sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn yr ymgynghoriad hwn gan fod eu hagwedd tuag at ddŵr ac aer glân, gwella priddoedd a gwynwch ecosystemau i'w weld yn wahanol i'ch nodau chi o ran rheoli afonydd a llifogydd?	Rydym yn gweithio'n adeiladol gyda CNC ar ein cynigion ar gyfer y cynllun. Rydym ni a CNC yn cydnabod bod ffermwyr yn chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i reoli effaith tywydd eithafol (llifogydd a sychder) a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd a byddwn yn gweithio gyda rheolwyr tir i wella hyn.
119	Siawns bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn sylfaen i gynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd, nid yw'n drydedd elfen gyfartal yn unig.	Mae egwyddor Rheoli'r Tir yn Gynaliadwy yn golygu ein bod yn ystyried cynaliadwyedd yn gyffredinol.
120	Mae priddoedd gwell yn un o effeithiau lleol o ganlyniad i reoli tir yn gynaliadwy ac felly'n cael eu talu amdanynt gan y farchnad.	Mae angen cymell newid mewn arferion er mwyn sicrhau bod iechyd y pridd yn gwella ac i sicrhau'r canlyniadau cysylltiedig.
121	A ydych yn cytuno bod rheoli tir yn gynaliadwy i gyflawni ein Deddf Amgylchedd a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu ein bod yn lleihau faint o gig a gynhyrchir a'n bod ni'n defnyddio mwy o ddychymyg wrth ddefnyddio ein tiroedd? (Nid wyf yn llysieuwr ac mae gen i fuches sugno fach!)	Nid yw lleihau faint o gig sy'n cael ei fwyta'n rhan o'r cynigion presennol ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol.
122	Pan fyddwch chi'n sôn nad ydych chi eisiau gweld ddwysau, beth yw eich diffiniad o ddwysau? A fyddai hyn yn cynnwys cyfraddau stocio uchel ar system yn seiliedig ar borfa, neu'n fwy tuag at ffermydd sy'n prynu porthiant i mewn? A fyddai rhai ffermydd o bosibl yn mynd yn amhroffidiol heb ddwysáu ?	Ein diffiniad o ddwysáu yw mewnbynnau allanol ar lefel sy'n achosi effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd. Rydym yn cefnogi arferion sy'n galluogi ffermwyr i wneud mwy o ddefnydd o'r borfa, megis pori mewn grŵp.

123	Os yw'r Gymraeg yn gyfartal yng Nghymru, pam nad oes gwasanaeth cyfieithu Cymraeg ar gael? A fydd fersiwn Gymraeg o'r sleidiau ar gael?	Bydd, mae'r sleidiau ar gael ar-lein.
124	Mae'n ymddangos bod y ffocws yn bennaf ar ddal a storio carbon, gan fod y nodau carbon yn SMART, ond nid yw'r nodau bioamrywiaeth yn y papur yn SMART - maen nhw'n fwy amwys. Ar hyn o bryd mae llawer o ffermwyr yn cynnal Archwiliadau Carbon, nad ydynt o bosibl yn gwella bioamrywiaeth ar lefel fferm, gan fod yr archwiliadau carbon eu hunain yn amrywiol iawn yn dibynnu ar ba archwiliad rydych chi'n ei wneud.	Mae bioamrywiaeth yn rhan allweddol o'n polisi ar gyfer y dyfodol ac rydym yn dal i ddatblygu ein dull.
125	Onid yw cymorthdaliadau amaethyddol wedi cael eu talu gan ddefnyddwyr ers 1952 trwy dariffau mewnfario, yn hytrach na "llywodraethau hael"?	Mae cymorthdaliadau amaethyddol wedi cael eu talu hyd yma gan yr UE o arian a dalwyd gan bob aelod-wladwriaeth.

126	<p>Cwestiwn ynglŷn â defnyddio technoleg newydd. A fydd caniatâd neu gefnogaeth ar gyfer technoleg newydd, e.e. y coleri da byw GPS trydan newydd (yn lle ffensys trydan) gan fy mod wedi clywed nad ydynt yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd? Pa broses sydd angen i dechnoleg newydd ei chyflawni er mwyn cael ei chymeradwyo?</p>	<p>Mae rhan allweddol o'n cynigion yn ymwneud â'r elfennau cyfalaf a allai gefnogi egwyddorion rheoli tir cynaliadwy yn y dyfodol ac rydym o'r farn y bydd defnyddio technoleg, boed hynny'n synwryddion o bell neu synwryddion da byw, yn chwarae rhan enfawr yn hynny o beth. Unwaith eto, byddai gennym ddiddordeb mawr ym marn pobl ar ba fath o dechnoleg a fyddai o gymorth mawr gyda rhai o'r cynigion rheoli tir a nodwyd. Wrth gwrs, rydym ni'n rhedeg nifer o gynlluniau ar hyn o bryd, y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) a'r Grant Busnes i Ffermydd (FBG) trwy ein Rhaglen Datblygu Gwledig yn benodol, ac rydym ni'n credu bod meddwl sut y bydd y cynlluniau hynny'n gweithio dros y blynyddoedd nesaf wrth i ni drawsnewid i'r cynllun newydd a thu hwnt i hynny o ran y gwaith cyfalaf yr ydym ni'n ei gefnogi yn bwysig iawn. Felly, croesewir unrhyw syniadau ar hynny.</p>
127	<p>Beth am y problemau rhyngrwyd rydyn ni'n eu cael ar lawer o ffermydd? A fyddem yn gallu cael help gyda hynny?</p>	<p>Mae cefnogaeth ar gael ar hyn o bryd trwy'r cynllun Mynediad Band Eang Cymru.</p>
128	<p>Rydych chi'n sôn am dechnolegau ar gyfer monitro, ond nid oes llawer o gefnogaeth ar gael i ffermwyr ar gyfer mabwysiadu'r technolegau hyn sy'n aml yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol. A oes unrhyw arwydd o gynnydd yn y cyllid sydd ar gael tuag at dechnolegau o'r fath ar lefel cymhorthdal y llywodraeth?</p>	<p>Wrth gwrs, rydym ni'n rhedeg nifer o gynlluniau ar hyn o bryd, y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) a'r Grant Busnes i Ffermydd (FBG) trwy ein Rhaglen Datblygu Gwledig yn benodol, ac rydym ni'n credu bod meddwl sut y bydd y cynlluniau hynny'n gweithio dros y blynyddoedd nesaf wrth i ni drawsnewid i'r cynllun newydd a thu hwnt i hynny o ran y gwaith cyfalaf yr ydym ni'n ei gefnogi yn bwysig iawn.</p>

129	A yw Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau y bydd pob fferm yn gallu cael ei chysylltu ar-lein er mwyn cydymffurfio gyda'r dulliau o adrodd ar-lein sy'n ofynnol? Mae band eang gwael yn broblem sylweddol mewn ardaloedd gwledig.	Mae cefnogaeth ar gael ar hyn o bryd trwy'r cynllun Mynediad Band Eang Cymru.
130	A yw'r trawsnewidiad hwn i gyd yn dibynnu ar faint o arian a roddir i Lywodraeth Cymru gan San Steffan, a siawns y bydd etholiad y DU yn cael mwy o effaith ar eich cynigion na'r etholiadau ym mis Mai?	Unwaith y bydd gennym eglurder ynghylch lefel y cyllid yn y dyfodol ar gyfer cymorth amaethyddol, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model priodol ar gyfer trosglwyddo o BPS i'r cynllun arfaethedig.
131	Beth fydd yn digwydd i gynlluniau Glastir, Glastir Uwch ac Organig yn 2022 a 2023? Rydw i'n rhan o'r ddau ac mae'n rhwystredig eu bod wedi cael eu rhewi i bob pwrpas. Er enghraifft, ni allaf ychwanegu tir newydd.	Nid yw'r Llywodraeth wedi gwneud penderfyniad ar hynny ar hyn o bryd mae arnaf ofn, felly gallaf ddeall eich rhwystredigaeth. Rhan o'r rheswm am hynny wrth gwrs, yw'r ansicrwydd ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod delio ag ef dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a nawr nad yw'r arian yn dod o'r UE fel yn y gorffennol, byddwn ni'n edrych i gyfeiriad Llywodraeth y DU i sicrhau eu bod yn anrhydeddu eu hymrwymadau o ran peidio â chynnig ceiniog yn llai. Yn anffodus, efallai eich bod wedi gweld yn y wasg nad yw hyn wedi digwydd yn y taliad diwethaf, ac rydym ni'n teimlo bod Cymru wedi cael bargaen wael gan Lywodraeth y DU o ran dyraniad y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rwy'n deall eich rhwystredigaeth ynghylch y mathau hynny o gynlluniau ar gyfer 2022 a 2023, ond peidiwch â phoeni, rydym ni'n ymwybodol bod rhaid i ni wneud penderfyniadau ynglŷn â hyn cyn gynted â phosibl fel bod busnesau fferm yn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol yn unol â hynny, ac rwy'n siŵr y bydd ar restr llywodraeth newydd ar ôl yr etholiad.

132	Yn ystod y cyfnod pontio, rwy'n credu mai eich awgrym yw y bydd cynlluniau Glastir fferm gyfan yn parhau, sy'n newyddion da iawn. A fyddwch chi'n agor y cynlluniau hyn ar gyfer ffermwyr nad ydynt yn rhan ohonynt ar hyn o bryd? Fel y gwyddoch, nid yw Glastir Uwch wedi agor ar gyfer ceisiadau ers 2017.	Gweler cwestiwn 131
133	Felly os yw'r BPS yr un peth ar gyfer 2021 a 2022 a bod y cyfnod pontio'n dechrau yn 2024 - beth sy'n digwydd yn 2023?	Un o'r rhesymau pam nad yw 2023 wedi'i gadarnhau hyd yma wrth gwrs yw oherwydd bod gennym ni etholiad eleni. Mae'n anodd iawn i Lywodraeth tua diwedd ei thymor wneud ymrwymadau sy'n rhwymo Llywodraeth newydd, ond yn realistig mae'r amserlen yr ydym wedi'i nodi eisoes yn heriol i'w chyflawni o ran yr hyn sydd angen digwydd o safbwynt y Llywodraeth a'r Senedd er mwyn caniatáu i'r cyfnod pontio ddechrau yn 2024. Mae hyn yn debygol o olygu mai dim ond hyn a hyn o opsiynau fyddai gan unrhyw Lywodraeth newydd am yr hyn y gallai ei wneud yn 2023.
134	Os yw taliad 2022 yn ddibynnol ar gyllid, sut fydd y cyfnod pontio'n cael ei ariannu?	Unwaith y bydd gennym eglurder ynghylch lefel y cyllid yn y dyfodol ar gyfer cymorth amaethyddol, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model priodol ar gyfer trosglwyddo o BPS i'r cynllun arfaethedig.

135

A fyddai disgwyl i gyllideb y dyfodol yn dilyn y cyfnod pontio fod yn debyg i'r gyllideb bresennol?

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal cyllid am oes y tymor Senedd hwn. Ymrwymodd Llywodraeth y DU yn San Steffan i neilltuo cyllid tan ddiwedd y Senedd nesaf. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod yn onest a dweud nad ydym yn gwybod mewn gwirionedd beth fyddai'r sefyllfa wedi hynny. Un pwynt pwysig iawn i'w nodi yw y bydd yn rhaid i ni gyfiawnhau'r swm parhaus o arian sy'n mynd i'r sector hwn, a heb os, bydd y gyllideb yn destun mwy o graffu nag erioed o'r blaen, oherwydd bydd penderfyniadau ar y gyllideb yn cael eu gwneud yn y Senedd. Rwy'n credu bod gennym ni ryw faint o sicrwydd ar gyfer y dyfodol agos, ac rwy'n credu y bydd yn dibynnu ar Lywodraeth y dyfodol ynghylch pa ymrwymadau maen nhw am eu gwneud. Ac i ni o ran y sector amaeth, credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cyfiawnhau'r gwerth y mae amaethyddiaeth a busnesau ffermio yn ei chwarae yn eu cymunedau gwledig, i wead cymdeithasol cymunedau. Mae angen i ni ddangos eu bod yn gwneud gwahaniaeth o ran economi'r cymunedau gwledig hynny ac yn cefnogi busnesau hyfyw yn yr ardaloedd hynny, ac wrth gwrs rwy'n credu bod angen i ni ddangos y gwahaniaeth amgylcheddol oherwydd bod cymaint o dir o dan reolaeth amaethyddol, y buddion amgylcheddol sy'n cyfiawnhau cefnogaeth barhaus i ffermio. Mae'n hanfodol ein bod yn cyflwyno'r achos gorau posibl er mwyn gallu cadw a diogelu'r cyllidebau hynny.



<p>136</p>	<p>Am faint ydych chi'n rhagweld y bydd y cyfnod pontio'n para o 2024?</p>	<p>Nid ydym wedi gwneud penderfyniad ar yr union hyd, ond rydym yn sôn am sawl blwyddyn. Rwy'n credu yn yr ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ein bod wedi gofyn am syniadau ynghylch pa mor hir y bydd yn para ac rwy'n credu bod pum mlynedd yn gyfnod y mae pobl wedi sôn amdano'n aml. Er nad ydym wedi gwneud penderfyniad ar hynny, yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud dros y cyfnod pontio yw dod â phawb i mewn i'r cynllun a'u hannog i weithredu'n effeithiol yn ystod y cyfnod hwnnw o fewn y cynllun newydd. Nid ydym yn chwilio am ansicrwydd yma, rydym ni'n chwilio am ddull o bontio dan reolaeth o system sydd wedi bod yn ei le ers degawdau i rywbeth newydd, felly bydd hynny'n cymryd sawl blwyddyn.</p>
<p>137</p>	<p>Os na fydd y cyfnod pontio'n dechrau tan 2024 ac efallai y bydd rhai ffermwyr eisiau gwella'r amgylchedd ar eu fferm cyn hynny, a fyddant yn cael eu gwobrwyo am hyn yn ôl-weithredol neu'n cael eu cosbi trwy beidio â chael eu talu?</p>	<p>Ni fyddem yn gwneud taliadau ôl-weithredol am gynllun nad ydym wedi'i gyflwyno. Rwy'n mynd yn ôl at y pwynt ein bod ni'n mynd i fod yn talu am y camau sy'n cael eu cymryd ar dir, felly os yw'r ffermwyr eisoes yn cymryd y camau hynny yna bydd yn llawer haws iddyn nhw gael mynediad i'r cynllun, ymuno â'r cynllun a gweithredu'r cynllun cyn gynted ag y bydd ar gael. Nid yw'n golygu "fyddwn ni ddim yn eich talu am eich bod chi eisoes yn gwneud hyn" - mae'n ymwneud â pharhau â'r arfer da presennol fel ein bod ni'n gallu sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol yr ydym ni'n chwilio amdanynt.</p>

138	Pa mor hir ydych chi'n rhagweld y byddai'r cyfnod pontio rhwng y ddau gynllun i ganiatáu i ffermwyr addasu lle mae angen iddyn nhw wneud hynny?	Rydym yn deall y bydd angen amser ar ffermwyr i addasu i ffyrdd newydd o weithio a gallai canlyniadau trosglwyddo'r DU o'r UE ychwanegu at bryderon rhai. Unwaith y bydd gennym eglurder ynghylch lefel y cyllid yn y dyfodol ar gyfer cymorth amaethyddol, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model priodol ar gyfer trosglwyddo o BPS i'r cynllun arfaethedig.
139	Pa mor hir ydych chi'n disgwyl i'r cyfnod pontio bara?	Gweler cwestiwn 138
140	Pan yr ydych chi'n dweud y bydd y cyfnod pontio'n dechrau yn 2024, pryd yn 2024 fydd hynny, a dros sawl blwyddyn ydych chi'n disgwyl i'r cyfnod pontio llawn gael ei gwblhau?	Nid ydym wedi gwneud penderfyniad ar hynny a byddai'n rhywbeth i'r Senedd nesaf ei benderfynu.
141	A yw'n wir y bydd taliadau BPS unigol eleni (2021) yn gostwng tua 5%?	Bydd cyfanswm yr uchafswm taliadau uniongyrchol o £238 miliwn yn darparu'r un lefel o daliadau uniongyrchol i ffermwyr yn 2021, ag a ddarparwyd yn 2020.
142	A allwch ein sicrhau na fydd bwlch rhwng y cynlluniau os gwelwch yn dda?	Bydd cyfnod pontio rhwng y cynlluniau cyfredol ac unrhyw gefnogaeth yn y dyfodol.
143	Roeddem yn ystyried Cynllun Creu Coetir Glastir sy'n gynllun aml-flwyddyn. A ddylem ni barhau i gymryd rhan o ystyried nad yw coedwigaeth yn cael ei chynnwys yn y cynllun hwn ac y byddai grantiau'n debygol o gael eu dirwyn i ben dros y blynyddoedd nesaf?	Yn y tymor hwy, bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn chwarae rhan allweddol yn hyn trwy gefnogi ffermwyr sy'n dewis plannu coetiroedd newydd a gwella rheolaeth ar goetiroedd presennol. Gall y broses bresennol ar gyfer ariannu a chymeradwyo creu coetir newydd fod yn gymhleth, sy'n atal pobl rhag plannu coed. Rydym yn bwriadu gwella'r broses bresennol, a bydd y newidiadau hyn yn cael eu dwyn ymlaen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

144	<p>Mae Llywodraeth Cymru eisiau cynnwys pwerau sylfaenol i Weinidogion Cymru greu a diwygio rheoliadau organig yng Nghymru a'r gallu i osod safonau.</p> <p>Sut mae hyn yn gysylltiedig â'r farchnad fewnol yn y DU a pham bod Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn briodol mewnosod cymal o'r fath?</p>	<p>Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu cyfeiriad cynhyrchu organig yng Nghymru yn y dyfodol, yn unol ag egwyddorion cynhyrchu o'r fath, gan ymateb i anghenion esblygol y sector.</p>
145	<p>Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Lloegr (ELMS) a'r hyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Cymru? Os yw datganoli yn cael ei weithredu yma yng Nghymru, pam ei fod mor debyg i Loegr yn hytrach na datblygu cynllun pwrpasol ar gyfer Cymru?</p>	<p>Rwy'n credu bod dynwared yn arwydd o barch tuag at y cynllun. Rwy'n credu pe baech chi'n dilyn ein proses datblygu polisi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a phroses datblygu polisi Lloegr dros yr amser hwnnw, efallai y gwelwch fod cynigion Cymru wedi cael eu cyhoeddi'n llawer cynt nag unrhyw beth a gyhoeddwyd am ELMS. Wedi dweud hynny, nid fy lle i yw sefyll yma a siarad am bolisi Lloegr, fy lle i yw siarad am bolisi Cymru. Rwy'n credu ein bod ni'n falch iawn o'r uchelgais sydd gennym ni ar gyfer ffermio yng Nghymru, yn gweithio mewn cytgord yn y dull rhannu tir hwnnw ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, ond yn chwarae rhan hanfodol yn ymateb y genedl i'r argyfwng hinsawdd a natur sy'n ein hwynebu.</p>
146	<p>A yw trwyddedu cywarch amaethyddol yn cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru?</p>	<p>Mae cywarch diwydiannol wedi'i drwyddedu gan y Swyddfa Gartref os oes ganddynt gynnwys tetrahydrocannabinol isel. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i ddatganoli hyn.</p>

147	Pa broses sy'n sicrhau nad yw cynigion Papur Gwyn Cymru yn rhoi ffermwyr sy'n masnachu ym marchnad sengl y DU o dan anfantais o gymharu â ffermwyr o genhedloedd eraill y DU?	Rydym wedi cytuno ar fframwaith anneddfwriaethol ar gyfer cydweithredu, cydgysylltu a chydweithredu yn y DU ar gymorth amaethyddol. Mae'r fframwaith yn darparu mecanwaith lle gellir codi materion trawsffiniol, trafod effeithiau polisi newydd a'r potensial i sefydlu fforwm fel llais ar gyfer materion trawsffiniol ar draws y llywodraethau.
148	Sut y bydd tir yn Lloegr sy'n cael ei ffermio gan ffermwyr Cymru yn cael ei drin o dan reolau trawsffiniol?	Gweler cwestiwn 147
149	A fydd y rheolau ar gynhyrchu'r un peth â gweddill y DU felly nid oes angen unrhyw waith papur ychwanegol i werthu anifeiliaid neu gynhyrchion fferm dros y ffin?	Gweler cwestiwn 147
150	Wrth ofyn i ffermwyr Cymru ymgymryd ag opsiynau a fydd yn y cynllun, a fyddwch yn integreiddio rheolaeth coetir fferm a choedwigaeth/plannu/sefydlu gwrychoedd newydd yn yr un cynllun ag opsiynau ffermio eraill neu a fyddant yn cael eu gwahanu?	Ni fyddant yn cael eu gwahanu. Byddwn yn cymryd agwedd gyfannol tuag at greu/rheoli coetiroedd fferm ac amaethgoedwigaeth.

151

Pam caniatáu cwmpo coed ynn fel mesur rhagataliol? Mae coed hŷn, sef y rhai a fyddai'n achosi perygl, yn datblygu clefyd coed ynn yn gymharol araf, felly mae digon o amser i fonitro a gwneud penderfyniadau ynglŷn â diogelwch coeden wedi iddi ddechrau dangos arwyddion o glefyd. Mae eich rhagfynegiad o farwolaethau o 96% yn rhy uchel o lawer. Mae angen i ni ganolbwyntio mwy ar iechyd coed; mae coed heb straen sy'n cael euocio'n broffesiynol lle mae'r gwreiddiau'n cael eu parchu gan beiriannau trwm a dulliau trin yn fwy iach.

Nid yw clefyd coed ynn yn her benodol i goedwigaeth nac amaeth goedwigaeth gan ei fod yn effeithio ar nifer o sectorau defnydd tir ar draws ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn drafftio canllawiau ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd sydd wedi'u hanelu at ymarferwyr a rheoleiddwyr, ynglŷn â pha mor gydweithredol y gallwn ni fod wrth reoli ein coed ynn o ystyried clefyd coed ynn, gan gynnal yr adnodd goedwigaeth pwysig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a gwella gwytnwch ein coetiroedd o ystyried newid amgylcheddol.

Daw'r ffigur o farwolaethau o 96% o erthygl a gyhoeddwyd a oedd â chyfranwyr gan Woodland Trust, Fera, Sylva Foundation a Phrifysgol Rhydychen.
<https://www.fera.co.uk/news/ash-dieback/> How woodlands are managed in Wales is the responsibility/liability of the owner/managers. Nid yw bob amser yn ymarferol i bob perchennog coetir ddilyn eich awgrymiadau isod ynghylch cyfundrefnauocio a rheoli. Gallai perchnogion/rheolwyr coetir sydd â choed ynn sy'n cael eu rheoli'n rheolaidd at nifer o ddibenion benderfynu gwaredu'r coed ynn yn y coetiroedd hyn i leihau'r risg o frigau a choed yn cwmpo ar weithwyr a'r cyhoedd. Rydym yn dal i ddysgu am y clefyd a ffactorau eraill a allai effeithio'n gyflym ar gyfanrwydd strwythurol y coed, e.e. afiechydon eilaidd. Gallwch ddarllen mwy allan o glefyd coed ynn ar wefan Forest Research:
<https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/pest-and-disease-resources/ash-dieback-hymenoscyphus-fraxineus/>

152	<p>Diolch James am y cyflwyniad hwn. Rydych wedi siarad am ffermwyr ond nid oes sôn am goedwigwyr. Ar ôl darllen y Papur Gwyn, nid oes cefnogaeth yn cael ei gynnig i goedwigwyr a pherchnogion coetiroedd. Yr unig sôn yw am fwy o reoleiddio ar gyfer coedwigoedd. Ydw i wedi darllen hwn yn gywir?</p>	<p>Mae yna gynigion yn y Papur Gwyn ynghylch coedwigaeth yn enwedig ynglŷn â rhoi pwerau i Weinidogion ynghylch asesiadau effaith amgylcheddol er enghraifft. Yn naturiol, mae ffocws y cynigion hyn yn ymwneud ag amaethyddiaeth a disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Ond os edrychwch ar gyd-destun polisi ehangach Llywodraeth Cymru a'n cynigion ar gyfer coedwig genedlaethol a chefnogaeth ar gyfer cynhyrchu coed yn gynaliadwy yng Nghymru, mae llawer mwy y tu hwnt i hynny o ran cynigion y Llywodraeth ynghylch cefnogi coedwigaeth yn y dyfodol.</p>
153	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o sicrhau cynnydd o 2,000 hectar y flwyddyn o leiaf mewn coetiroedd. Sut fydd hyn yn digwydd ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd?</p>	<p>Gall ffermio chwarae rhan bwysig yn y targed plannu coed a gall wneud hynny mewn ffordd lle na fydd angen newid mawr yn y ffordd y rheolir tir fferm. Er enghraifft, trwy reoli coetiroedd fferm, gwrychoedd a choed yn y cae, naill ai ar eu pennau eu hunain neu fel rhan o strivedi cysgodi neu lain glustogi.</p>
154	<p>Pa rwymedigaeth a roddir ar ffermwyr i gyfrannu at dargedau plannu coed lle nodir bod tir yn addas i'w blannu ar y map cyfleoedd?</p>	<p>Bydd plannu coetir yn cael ei gymell yn y cynllun ond bydd yn weithred wirfoddol.</p>
155	<p>Mae angen i ni, fel ffermwyr, allu dweud wrth y genedl ein bod ni'n helpu i ddatrys yr argyfyngau natur a'r hinsawdd sy'n ein hwynebu, a allwch chi ein sicrhau y bydd cynllun y dyfodol yn ein cefnogi i wneud hynny?</p>	<p>Mae ffermwyr yn chwarae rhan hanfodol o ran lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru. Rydym am eu cefnogi i roi tystiolaeth o'u gallu i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, sydd nid yn unig yn helpu i ddiogelu gwerth bwyd o Gymru yng Nghymru a thu hwnt, ond hefyd yn dangos y cyfraniad maen nhw'n ei wneud tuag at ddatrys rhai o'n problemau amgylcheddol pwysicaf.</p>
156	<p>Ble allwn ni weld y cynigion fel y maen nhw nawr?</p>	<p>Dyma'r ddolen i'r Papur Amaethyddiaeth yng Nghymru sy'n nodi'r cynigion hyd yma https://llyw.cymru/bil-amaethyddiaeth-cymru</p>



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

157

Hoffwn wybod beth fydd yn digwydd i 'Ffermwyr Gweithredol' nad oes ganddynt unrhyw stoc ond sy'n rheoli eu ffermydd yn llwyr (dim ond 18ha yw fy un i), ac yn gwneud pob penderfyniad ystyrlon ac yn cynnal y fferm eu hunain yn llwyr yn y dyfodol? Mae gen i hawliau ac rwy'n derbyn y Taliad Sylfaenol.

Rwy'n rhentu fy fferm gyda Thrwyddedau Pori ar hyn o bryd am 9 mis o'r flwyddyn ac rwy'n argraffu'r trwyddedau fy hun.

Mae'r cynllun arfaethedig yn wahanol i'r Cynllun Taliad Sylfaenol presennol. Y newid sylfaenol yw y bydd lefel y taliad yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a gyflawnir gan ffermwr. Rydym wedi bod yn glir y dylid gwobrwyo taliadau i'r rhai sy'n cyflawni'r camau gweithredu ac felly'n cyflawni'r canlyniadau yr ydym yn eu ceisio.



Cranfa Amaethyddol Ewrop ar
y Fferm Gweithredol
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government